

## Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cymru Rhagfyr 2018

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar [ar ein calendr cyhoeddiadau](#)

### Yr Economi a'r Farchnad Lafur

Mae'r ONS wedi cyhoeddi ei amcangyfrifon cyntaf erioed o [werth economaidd darpariaeth gofal plant di-dâl](#) (Saesneg yn unig) yng Nghymru. Mae dadansoddiad manylach ar gael mewn bwletin dilynol, sydd hefyd yn cynnwys amcangyfrifon o [werth pob math o waith di-dâl](#) (Saesneg yn unig). Yn ogystal â'r diweddariadau rheolaidd i'n [hystadegau economaidd allweddol](#), mae diweddariadau diweddar eraill yn cynnwys ystadegau ar [ddemograffeg busnes](#), [gwariant ar ymchwil a datblygu](#), [cyflogaeth gweithle](#), [enillion](#), [allforion Cymreig](#), [proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd](#) a'r dangosyddion allbynnau tymor byr ar gyfer [gwasanaethau'r farchnad](#) a [chynhyrchu ac adeiladu](#).

### Addysg

Rydym newydd gyhoeddi tri o'n datganiadau ystadegol blynyddol mewn fformat newydd gyda'r nod o wneud yr wybodaeth allweddol yn fwy hygyrch a pherthnasol i ddefnyddwyr. Y datganiadau yma ydy [Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion](#), [Canlyniadau arholiadau 2018](#) ac [Absenoldeb o ysgolion uwchradd](#). Rydym yn croesawu adborth ar y fformatau newydd yma. Eleni roeddem wedi cyhoeddi [cyraeddiadau a'r hawl i brydau am ddim](#) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2/3 ym mis Tachwedd, fis yn gynharach na'r arfer. I gael rhagor o wybodaeth neu i ddarparu unrhyw adborth, cysylltwch â ni yn [ystadegau.ysgolion@llyw.cymru](mailto:ystadegau.ysgolion@llyw.cymru)

### Yr Amgylchedd a Thai

#### Arolwg o Gyflwr Tai yng Nghymru (WHCS)

Ar 6 Rhagfyr 2018 fe gyhoeddwyd y canlyniadau cenedlaethol cyntaf o [Arolwg Cyflwr Tai Cymru \(ACTC\) 2017-18](#). Roedd y datganiad yn canolbwyntio ar nodweddion stoc tai a cyflwr tai. Fe wnaethom weithio gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau er mwyn sicrhau cyhoeddi'r datganiad fel Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddwyd hefyd dangosydd canlyniadau hawdd i'w ddefnyddio sy'n galluogi defnyddwyr i archwilio'r canlyniadau ar ystod o bynciau. Mae'r dangosydd ar y foment ond yn cynnwys y prif ystadegau sydd yn y Datganiad Cyntaf, ond fe fydd yn cael ei ehangu wrth i ni wneud mwy o ddadansoddi. I'r rheini sydd â ddiddordeb yn sut y casglwyd y wybodaeth arolwg mae adroddiad ansawdd ac adroddiad technegol gryno ar [wefan ACTC](#).

Fe fydd set ddata (heb ei ddatgelu) o Arolwg Cyflwr Tai Cymru ar gael ar [Archif Data'r DU](#) cyn hir, gyda data mwy manwl ar gael o'r [Tîm ACTC](#), o dan trwydded arbennig. Nawr bod y canlyniadau pennawd wedi cael eu cyhoeddi, byddwn yn gweithio ar ddadansoddiadau mwy manwl pwnc penodol (ar lefel cenedlaethol). Gallwch canfod mwy o wybodaeth am y cyhoeddiadau a gynlluniwyd ar [wefan ACTC](#). Byddwn hefyd yn edrych ar fodelu amcangyfrifon lefel is.

Fe fydd amcangyfrifon pennawd Tlodi Tanwydd ar gael ym mis Ebrill 2019, gyda adroddiad mwy manwl i'w ddilyn yn yr haf.

### **Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (HSAR)**

Mae fersiwn profi cysyniad cychwynnol yr HSAR bellach ar gael a thynnwyd yr ystadegau enghreifftiol cyntaf. Mae'r system fewnol ar gyfer profi yn cynnwys Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC), Rhentu Doeth Cymru, data'r Gofrestrfa Tir a Swyddogion Rhenti ynghyd â data gan awdurdod lleol Powys a Trivallis, un o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwyaf Cymru.

Mae gwaith ar ADSD wedi cael ei raddio yn ôl dros dro wrth i ffocws y tîm symud i gyfeiriad dadansoddiad canlyniadau'r Arolwg o Gyflwr Tai yng Nghymru ond bydd y gwaith yn ailgychwyn yn y flwyddyn newydd.

### **Allbynnau Ystadegol ar Dai**

Cafodd datganiadau blynyddol a oedd yn edrych ar Safon Ansawdd Tai Cymru ar 31 Mawrth 2018 a Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, 2017-18 eu cyhoeddi ym mis Hydref 2018. Bydd datganiad blynyddol ar Beryglon Tai a Thrwyddedau, 2017-18 yn cael ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2018. [Mae pob datganiad ar gael ar-lein](#)

### **Digartrefedd**

Cynhaliwyd y drefn genedlaethol flynyddol o gyfri'r nifer sy'n cysgu ar y stryd ddechrau mis Tachwedd 2018 a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi ar 5 Chwefror 2019.

### **Grŵp Ystadegau Tai Traws-lywodraethol (CGHSG)**

Cyfarfu'r grŵp ddiwethaf ar 10 Medi 2018 a chyhoeddwyd [blog yn trafod gwaith y grŵp](#) (Saesneg yn unig) ar wefan Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar 26 Medi 2018.

Cyhoeddwyd [Cynllun gweithredu CGHSG](#) (Saesneg yn unig) a fydd yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Caiff yr adroddiad pwnc cyntaf a gynhyrchir ar y cyd gan y grŵp sy'n edrych ar y sector rhentu preifat ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2019.

### **Amcangyfrifon Angen a Galw am Dai**

Cyhoeddodd y Gweinidog dros Dai ac Adfywio [ddatganiad ysgrifenedig](#) yn ddiweddar yn datgan y penderfyniad i gynhyrchu diweddariadau ynghylch amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r teclyn angen a galw am dai a ddatblygwyd gan Lywodraeth yr Alban gyda swyddogion o Gymru a'r Alban yn cydweithio'n agos. Mae dulliau sydd wedi cael eu dilyn mewn manau eraill yn y DU hefyd wedi cael eu hystyried ond y dull hwn fydd y ffordd orau o ddiwallu gofynion Llywodraeth y DU ar gyfer amcangyfrifon diweddar. Yn ogystal â'r datganiad ysgrifenedig, cyhoeddodd y Prif Ystadegydd [flog](#) a oedd yn egluro cynlluniau Llywodraeth Cymru i'r dyfodol o ran Amcangyfrifon Angen a Galw am Dai. Caiff y canlyniadau cyntaf eu cyhoeddi yn gynnar yn 2019 a byddant yn amcangyfrifon cyffredinol o angen

o ran tai ychwanegol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Caiff yr amcangyfrifon wedi'u dadansoddi yn ôl deiliadaeth eu cyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2019.

## Iechyd

### Ystadegau Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyhoeddwyd amrywiaeth o [ystadegau gwasanaethau cymdeithasol](#) yn ystod y chwarter yma. Mae problemau'n dal i fodoli gydag ansawdd y data sy'n golygu nad oes rhywfaint o wybodaeth ar gael ar lefel awdurdod lleol ac nid oedd rhai wedi gallu cyflwyno data. Mae'r datganiadau ystadegol yn darparu rhagor o wybodaeth.

### Offeryn rhyngweithiol ystadegau iechyd a gofal

Er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ystadegau iechyd a gofal, cynhyrchwyd [offeryn rhyngweithiol](#). Mae'r offeryn yn rhoi'r datganiadau cyfredol a blaenorol ac maen nhw'n edrych ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal yng Nghymru. Mae'n bosibl chwilio yn ôl pwnc, yn ôl sefydliad, daearyddiaeth neu allweddair. Mae'n dal i gael ei ddatblygu a bydden ni'n falch o gael adborth arno.

[I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ni](#)

## Arolwg Cenedlaethol

Mae rhestr lawn o'r bwletinâu sydd wedi cael eu cyhoeddi a'r rhai sydd ar y gweill ar gael ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#).

Rydym ni nawr yn llunio fersiwn terfynol yr holiadur ar gyfer 2019-20. Mae modd gweld y cwestiynau y cytunwyd eisoes i'w cynnwys ar ein [chwiliwr cwestiynau](#).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [Wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#) neu [cysylltwch â ni](#).

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn enwi'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru a bydd yn cael ei ddiweddarau yn 2019 (cafodd hyn ei wneud ddiwethaf yn 2014).

Mae wyth parth yn MALIC: Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad at Wasanaethau, Diogelwch Cymunedol a'r Amgylchedd Ffisegol. Mae gan y mynegai amrywiaeth o ddibenion gan gynnwys, ond nid dim ond rhain, targedu polisiâu ac adnoddau, llunio proffiliau o ardaloedd ac edrych ar effaith amddifadedd ar ganlyniadau amrywiol (ee anghydraddoldebau iechyd).

Bydd [ymgyngoriad](#) ynghylch y dangosyddion sy'n cael eu cynnig ar gyfer MALIC 2019 yn dod i ben ddydd Llun 17 Rhagfyr, felly anfonwch eich ymatebion nawr!

[Mae rhagor o wybodaeth am MALIC ar gael ar-lein](#)

## Ystadegau Diogelwch Cymunedol

Cafodd dau adroddiad manwl ar danau yng Nghymru yn 2017-18 eu cyhoeddi'r hydref yma, a oedd yn darparu gwybodaeth am y math o dân, yr anafusion, y difrod a'r ffynhonnell:

- [Adroddiad ar danau glaswelltir](#) blynyddol yng Nghymru ym mis Hydref.
- [Adroddiad ar danau bwriadol](#) bob dwy flynedd yng Nghymru ym mis Tachwedd.

[Anfonwch eich adborth atom, neu ofyn rhagor o gwestiynau](#)

## Trafnidiaeth

### Damweiniau Ffyrdd wedi'u Cofnodi gan yr Heddlu

Roeddem wedi cyhoeddi [dangosfwrdd rhyngweithiol ar ystadegau damweiniau ffyrdd yng Nghymru](#). Mae'r dangosfwrdd yn cyflwyno'r data am ddamweiniau ac anafusion drwy ddadansoddiadau daearyddol a demograffig amrywiol.

Mae diweddariadau diweddar eraill yn cynnwys ystadegau ar [draffig ffyrdd](#), [cludo nwyddau ar ffyrdd](#) a [chludiant môr](#).

## Llesiant Cymru

Ar 20 Medi 2018 fe wnaethom gyhoeddi [adroddiad Llesiant Cymru 2017-18](#), ynghyd ag adroddiad cryno a oedd yn cyflwyno rhai o'r canfyddiadau allweddol ynghylch [llesiant plant](#).

Yn 2019, yn hytrach na chynhyrchu adroddiad blynyddol cynhwysfawr arall, rydym yn cynnig canolbwyntio ar ddiweddariad byrrach ar y cynnydd yn erbyn y nodau, a'r hyn mae'r data diweddaraf yn ei ddweud wrthym am lesiant Cymru. Mae adroddiad blynyddol llawn yn ymarfer mawr ac rydym yn cynnig cyhoeddi diweddariad llawn a chynhwysfawr bob pedair i bum mlynedd, gan ddilyn amserlen sy'n diwallu anghenion defnyddwyr orau. Darllenwch ragor am ein cynlluniau yn [niweddariad y Prif Ystadegydd](#). [Cysylltwch â ni](#) os oes gennych chi unrhyw adborth ynghylch rhain.

Ar hyn o bryd mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig yn asesu i ba raddau mae Llesiant Cymru yn cyrraedd y safonau proffesiynol a osodwyd yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) (Saesneg yn unig) statudol. Fel rhan o hyn, maen nhw'n gofyn am safbwyntiau defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr. Gallwch ddysgu rhagor am yr asesiad, eu hymarfer ymgysylltu â defnyddwyr a sut mae darparu eich safbwyntiau ar eu [gwefan](#) (Saesneg yn unig).

## Tudalennau Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru

Bydd nifer ohonoch chi'n gyfarwydd â'n tudalennau [Ystadegau ac Ymchwil](#) cyfredol. Yn raddol mae gwefan Llywodraeth Cymru yn symud i [blatfform newydd](#), a'n tro ni fydd hi yn y flwyddyn newydd. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n Tîm Digidol Corfforaethol i ddylunio ac i adeiladau ein tudalennau ystadegau ac ymchwil ar gyfer y platfform newydd. Ni fyddwn yn fyw am sbel, ond cyn i ni symud byddwn yn sicrhau bod ein holl ddefnyddwyr yn cael gwybod drwy gyfryngau cymdeithasol a'r wefan cyfredol. Byddwn yn creu blog am hyn yn nes at yr amser hefyd.

## Manylion Cyswilt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru

Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau

E-bost: [desg.ystadegau@llyw.cymru](mailto:desg.ystadegau@llyw.cymru) Ffôn: 03000 604400

Yn benodol i'r pwnc

<https://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/?lang=cy>

Twitter 

<https://twitter.com/ystadegaucymru>

Gwasanaeth newyddion a hysbysiadau e-bost Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy>

Ymholiadau gweinyddol

E-bost [GweinydduGGD@llyw.cymru](mailto:GweinydduGGD@llyw.cymru)